Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

# Polisi Cam-drin Domestig, Trais a Thrais Rhywiol



DATBLYGIAD SEFYDLIADOL

Cyhoeddwyd: Ebrill 2024

# Rheoli Fersiwn

Bwriedir y ddogfen hon ar gyfer:

☐ Staff y Cyngor yn unig ☐ Staff seiliedig mewn ysgolion yn unig ☒ Staff y Cyngor a seiliedig mewn ysgolion

| Fersiwn | Newidiadau Allweddol | Cymeradwywyd gan |
|---|---|---|
| Chwef 2021 | Dyfarnu hyd at 5 diwrnod o Absenoldeb Diogel ar dâl fel mater i gefnogi staff sy'n profi cam-drin domestig, trais a thrais rhywiol. | Cyngor |
| Ebrill 2024 | Manylion EAP wedi'u diweddaru | OD |

Gellir adolygu a diwygio'r ddogfen hon ar unrhyw amser a heb ymgynghoriad mewn ymateb i ofynion cyfreithiol neu mewn ymateb i ofyniad sefydliadol a lle nad yw newidiadau yn adlewyrchu newid sylfaenol neu'n effeithio ar ysbryd neu fwriad y ddogfen.

# Cynnwys


1. Datganiad Polisi ........ 3
2. Cwmpas ........ 3
3. Nodau ac Amcanion y Polisi ........ 3
4. Diffiniadau a Deddfwriaeth Allweddol ........ 4
5. Effaith Cam-drin/Trais Domestig ar y Gweithle ........ 6
6. Cyflogeion sy'n profi Cam-drin/Trais Domestig ........ 7
7. Absenoldeb, Amser o'r Gwaith a Mesurau Cefnogol eraill ar gyfer Dioddefwyr ........ 7
8. Rôl Rheolwyr ........ 8
9. Cyflawnwyr Cam-drin/Trais Domestig ........ 9
10. Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth ........ 10
11. Cyfrinachedd ........ 10
12. Hawl i Breifatrwydd ........ 11
13. Datganiad Cydraddoldeb ........ 11
14. Mesurau Perfformiad ........ 12
15. Diogelu Data ........ 12
16. Help a Chymorth ........ 12

# 1. Datganiad Polisi

Mae cam-drin domestig, trais a thrais rhywiol ("cam-drin/trais domestig") yn broblemau cymdeithasol a throseddol difrifol sy'n cyfrif am bron chwarter yr holl droseddau treisgar ac mae ganddynt ganlyniadau dynol ac ariannol sylweddol ar gyfer unigolion, teuluoedd, cymunedau a chymdeithas yn gyffredinol.

Sylweddolwn y bydd rhai o'n cyflogeion ymysg y rhai y mae camdriniaeth yn effeithio arnynt naill ai fel goroeswyr neu fel rhywun sy'n byw ar hyn o bryd gyda cham-drin/trais domestig, rhywun y gall lladdiad yn y cartref fod wedi effeithio arnynt neu fel unigolyn sy'n cyflawni cam-drin/trais domestig. Rydym yn ymroddedig i ddatblygu diwylliant gweithle lle nad oes dim goddefgarwch ar gyfer cam-drin/trais domestig yn ei holl agweddau a sylweddolwn mai'r sawl sy'n ei gyflawni sy'n gyfrifol am gam-driniaeth o'r fath.

Byddwn yn ymdrechu i gymryd pob cam posibl i helpu atal realaeth cam-drin/trais domestig drwy atal, diogelu a chefnogaeth ar gyfer y cyflogeion y mae'r materion hyn yn effeithio arnynt.

Drwy weithredu'r polisi hwn yn effeithiol a'i ymrwymiad i weithio aml-asiantaeth a phartneriaeth i drin cam-drin/trais domestig, rydym yn ymroddedig i fynd i'r afael â'r broblem hon.

# 2. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn weithredol i gyflogeion y Cyngor a chyflogeion seiliedig mewn ysgolion.

# 3. Nodau ac Amcanion y Polisi

Sylweddolwn fod cam-drin/trais domestig yn broblemau sylweddol yng nghymdeithas heddiw a bod gennym ddyletswydd gofal i sicrhau fod ein cyflogeion yn gweithio mewn amgylchedd diogel lle caiff risgiau i iechyd a llesiant eu hystyried a'u trin yn effeithlon. Mewn cysylltiad gyda'r Cyd Undebau Llafur rydym yn ymroddedig i sicrhau fod cymorth ar gael i gyflogeion sy'n profi neu'n goroesi gweithredoedd o gam-drin/trais domestig.

Prif nodau ac amcanion y polisi yw:

- Rhoi cymorth cadarnhaol a chefnogi cyflogeion sy'n profi gweithredoedd o gam-drin/trais domestig.
- Codi ymwybyddiaeth o'r hyfforddiant sydd ar gael a phroblemau yn gysylltiedig gyda phob math o drais a chamdriniaeth.
- Rhoi arweiniad a chynorthwyo rheolwyr wrth gefnogi cyflogeion sy'n dioddef gweithredoedd o gam-drin/trais domestig yn eu bywydau personol, ac o ran cynnig mynediad i gwnsela a chymorth arall i gyflogeion sy'n cyflawni cam-drin/trais domestig sy'n gofyn i ni am help.

- Gostwng absenoldeb o'r gwaith fel canlyniad i weithredoedd o gam-drin/trais domestig a chynorthwyo wrth wella unrhyw faterion yn ymwneud â pherfformiad drwy gynnig cymorth ymarferol i gyflogeion yr effeithir arnynt.
- Helpu pawb (yn cynnwys rheolwyr ac aelodau etholedig) drwy hyfforddiant a dealltwriaeth i adnabod darpar ddioddefwyr neu gyflawnwyr gweithredoedd o gam-drin/trais domestig ac i roi amgylchedd cefnogol iddynt.
- Cadarnhau ymroddiad i'r egwyddor fod unrhyw fath o drais neu gam-drin yn ymddygiad annerbyniol a bod gan bawb hawl i fyw bywyd yn rhydd o ofn a chamdriniaeth.

# 4. Diffiniadau a Deddfwriaeth Allweddol

Mae'n ofyniad yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ("VAWDASV)" fod gan bob cyflogwr sector cyhoeddus datganoledig bolisi gweithle ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r polisi hwn yn cyflawni'r gofyniad hwnnw ond nid yw ar gyfer menywod yn unig, gan hefyd gynnwys dynion ac unigolion anneuol.

Mae'r polisi yn cynnwys pob math o drais seiliedig ar rywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan gydnabod fod dynion, menywod ac unigolion anneuol yn dioddef trais, bygythiadau trais neu aflonyddu yn deillio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion yn ymwneud â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol, a hefyd briodas dan orfodaeth.

Mae'r diffiniad o gam-driniaeth, trais yn erbyn menywod a thrais rhywiol, fel y'i nodir yn VAWDASV, yn cynnwys pob math o drais seiliedig ar rywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; fodd bynnag mae nifer anghymesur o fenywod a genethod yn profi mathau neilltuol o drais. Yn neilltuol, dengys gwybodaeth ystadegol o Fwletin Ystadegol Arolwg Troseddau Prydain y bydd cam-drin domestig yn effeithio ar 1 mewn 4 menyw ac 1 mewn 6 dyn yn ystod eu hoes ac yn arwain at, ar gyfartaledd, ddwy fenyw yn cael eu llofruddio bob wythnos a 30 dyn yn cael eu llofruddio bob blwyddyn.

**Cam-drin a Thrais Domestig – Y Swyddfa Gartref**

Y diffiniad traws-lywodraethol o drais a cham-drin domestig yw:

Unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad rheoli, drwy orfodaeth, bygythiol, trais neu gam-drin rhwng rhai 16 oed a throsodd sydd, neu a fu, yn bartneriaid personol agos neu aelodau teulu beth bynnag yw eu rhywedd neu rywioldeb. (Er enghraifft, gall hyn gynnwys cam-drin a thrais a gyflawnir gan feibion, merched, mam-guod a thad-cuod neu unrhyw berson arall sydd â pherthynas agos neu berthynas waed gyda'r dioddefwr).

Gall y gamdriniaeth gynnwys, ond nid yw wedi ei gyfyngu i:

- Seicolegol
- Corfforol
- Rhywiol
- Ariannol

- Emosiynol

Gall trais/cam-drin domestig amlygu ei hun drwy amrywiaeth o weithredoedd tebyg i:

- Ymosodiad corfforol neu fygythiadau o ymosodiad corfforol (e.e. taro, gwthio, cicio, bwrw, trywanu neu ddinistrio eiddo personol);
- Ymosodiad rhywiol neu fygythiadau o ymosodiad rhywiol;
- Camdriniaeth emosiynol neu seicolegol (e.e. brawychu, sarhau llafar, bychanu, peidio caniatáu i ffrindiau neu berthnasau ymweld);
- Gwrthod hawliau neu gyfyngu rhyddid personol (e.e. atal arian neu help meddygol);
- Gosod ynysigrwydd cymdeithasol neu amddifadu symudedd.

Sylweddolwn mai anaml y caiff cam-drin/trais domestig ei gyfyngu i un digwyddiad a'i fod fel arfer yn ffurfio patrwm o ymddygiad drwy orfodaeth neu reoli.

Mae **ymddygiad sy'n rheoli** yn amrywiaeth o weithredoedd a gynlluniwyd i wneud i berson deimlo yn israddol a/neu ddibynnol drwy eu hynysu o ffynonellau cefnogaeth, manteisio ar eu hadnoddau a galluedd ar gyfer budd personol, amddifadu o'r modd sydd ei angen am annibyniaeth, gwrthwynebiad a dianc a rheoleiddio eu hymddygiad bob dydd.

Mae **ymddygiad drwy orfodaeth** yn weithred neu batrwm o ymosodiad, bygythiadau, bychanu a chodi ofn neu gam-driniaeth arall a ddefnyddir i anafu, cosbi neu godi ofn ar eu dioddefwr.

### Trais yn erbyn menywod – y Cenhedloedd Unedig

Unrhyw weithred o drais seiliedig ar rywedd sy'n arwain at neu sy'n debygol o arwain at niwed corfforol, rhywiol neu seicolegol neu ddioddefiant i fenywod, yn cynnwys bygythiadau o weithredoedd o'r fath, rheoli dan orfodaeth neu amddifadedd fympwyol o ryddid, p'un ai'n digwydd mewn bywyd cyhoeddus neu breifat.

### Trais rhywiol – y Cenhedloedd Unedig

Unrhyw weithred rywiol, ymgais i gael gweithred rywiol, sylwadau neu symudiadau rhywiol nas dymunir, neu weithredoedd i fasnachu, neu fel arall wedi ei gyfeirio yn erbyn rhywioldeb person, yn defnyddio gorfodaeth, gan unrhyw berson beth bynnag eu perthynas i'r dioddefwr, mewn unrhyw leoliad.

### Trais seiliedig ar rywedd

Trais, bygythiadau trais neu aflonyddu yn codi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o werthoedd, credoau neu arferion yn gysylltiedig â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol, anffurfio organau cenhedlu benywod, gorfodi person (p'un ai drwy rym corfforol gorfodaeth drwy fygythiadau neu ddulliau seicolegol arall) i ymrwymo i seremoni grefyddol neu sifil neu briodas (p'un ai yn rhwymo'n gyfreithiol ai peidio).

**Camdriniaeth seiliedig ar anrhydedd**

Mae camdriniaeth seiliedig ar anrhydedd yn gasgliad o arferion a ddefnyddir i reoli ymddygiad o fewn teuluoedd er mwy credoau diwylliannol tybiedig a/neu anrhydedd. Gall trais ddigwydd pan fydd cyflawnwyr yn tybio fod perthynas wedi dod â chywilydd ar y teulu a/neu gymuned drwy dorri eu cod anrhydedd.

**Deddfwriaeth Allweddol**

Rydym yn cydnabod deddfwriaeth allweddol berthnasol i drais yn y gwaith, yn cynnwys:

- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
- Rheoliadau Adroddiadau am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 1995
- Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Ymgynghoriad gyda Chyflogeion) 1996
- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Cydraddoldeb (2010)

# 5. Effaith Cam-drin/Trais Domestig ar y Gweithle

Gall cam-drin/trais domestig arwain at amrywiaeth o broblemau tebyg i ddiffyg hunan-hyder, allgau cymdeithasol, patrymau afreolaidd o fwyta a chysgu, iselder, pryder difrifol, camddefnydd o alcohol a sylweddau, hunan-anaf a hunanladdiad. Gall canlyniadau cymdeithasol ac economaidd cam-drin/trais domestig gynnwys digartrefedd, colli neu wahanu oddi wrth berthnasau a chyfeillion, arwahanrwydd, diffyg cyflogaeth, dyled ac amddifadrwydd.

Drwy fabwysiadu'r polisi hwn rydym yn cydnabod nad mater preifat yw cam-drin/trais domestig ac y gall gael effaith fawr ar fywyd a gwaith unigolyn. Mae'n aml yn bosibl i gyflawnwyr ddefnyddio adnoddau gweithle, megis i ffonau, e-bost a dulliau eraill, i fygwth, aflonyddu neu gam-drin.

Mae'n hysbys y gall cam-drin/trais domestig effeithio ar berfformiad a chynhyrchiant. Gall yr effeithiau hefyd gynnwys gostwng cynhyrchiant, hwyrni, straen, absenoliaeth, camgymeriadau a chynyddu trosiant cyflogeion. Gall hyn gael effaith ar adnoddau ariannol a darpariaeth gwasanaeth.

Gellir hefyd effeithio ar gydweithwyr; gallant gael eu dilyn i neu o'r gwaith, neu gael eu holi am fanylion cyswllt neu leoliad y dioddefwr. Gall fod angen iddynt lanw dros gyflogeion pan fyddant i ffwrdd o'r gwaith, ceisio atal y cam-drin a gallant ofni am eu diogelwch eu hunain.

# 6. Cyflogeion sy'n profi Cam-drin/Trais Domestig

Caiff cyflogeion sy'n ein hysbysu eu bod yn profi cam-drin/trais domestig eu trin mewn modd cefnogol sy'n dangos cydymdeimlad. Ni ddylai cyflogeion eraill eu beirniadu a chânt eu hannog i'w helpu eu hunain allan o'u hamgylchiadau camdriniol, gan roi ystyriaeth ddyladwy i'w diogelwch personol a diogelwch eu plant, lle'n berthnasol.

Gall cyflogeion ofyn i'w rheolwr am gyngor a chymorth. Yn ychwanegol, rydym yn darparu ystod o wasanaethau cefnogol a chyfeirio, sy'n cynnwys:

- Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol
- Rhaglen Cymorth Cyflogeion yn cynnig gwasanaethau cwnsela
- Dylai cynrychiolwyr undebau llafur fedru rhoi cyngor a chymorth
- Darparwyr gwasanaethau arbenigol eraill e.e. llinell gymorth Byw Heb Ofn

Mae manylion pellach ar gael yn yr adran Help a Chymorth.

Dylai cyflogeion sy'n sylweddoli neu'n amau fod cydweithiwr yn byw mewn sefyllfa o gam-drin yn eu cartref siarad yn gyfrinachol gyda'u rheolwr. Dylai cyflogeion gydnabod NAD ydynt yn gwnselwyr a dylent fod yn ofalus am beidio cynnig mwy nag y gallant ei gyflawni yn nhermau cefnogaeth. Dylent hefyd ystyried eu llesiant eu hunain, gan y gallant fod yn rhoi eu hunain mewn perygl os daw'r sawl sy'n cam-drin i wybod am eu cefnogaeth.

Dylai cyflogeion wybod fod y Cynllun Datgelu Trais Domestig (a fanylir yn adran 16) yn rhoi'r hawl i unigolyn ofyn i'r heddlu am hanes blaenorol partner o drais domestig/gweithredoedd treisgar. Gall unrhyw unigolyn hefyd ofyn am wybodaeth o'r fath am bartner cyfaill agos neu aelod o'r teulu.

# 7. Absenoldeb, Amser o'r Gwaith a Mesurau Cefnogol eraill ar gyfer Dioddefwyr

Rydym yn ymroddedig i gefnogi unrhyw gyflogeion sy'n profi cam-drin/trais domestig fel sy'n dilyn:

**Absenoldeb Diogel**

Absenoldeb Diogel – hyd at 5 diwrnod o absenoldeb diogel ar dâl pro rata ar gael i gyflogeion sy'n profi cam-drin/trais domestig am resymau yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i:

- Ceisio cartref diogel
- Ymweld â chynghorwyr cyfreithiol neu asiantaethau cymorth ar gyfer ailgartrefu, i wneud trefniadau eraill ar gyfer gofal plant, yn cynnwys cyfarfodydd gydag ysgolion, neu apwyntiadau eraill perthnasol.
- Cymorth ariannol.

Yn ychwanegol, dylai rheolwyr ymchwilio mesurau eraill mewn modd cefnogol a gan ddangos cydymdeimlad, a all gynnwys:

- Cymorth ariannol, i atal gorfodaeth ariannol, e.e. talu cyflog y dioddefwr i gyfrif banc gwahanol.
- Newidiadau dros dro neu barhaol i amserau a phatrymau gwaith.
- Newidiadau i ddyletswyddau penodol, er enghraifft i osgoi cyswllt posibl gyda chyflawnwr mewn swydd sy’n wynebu cwsmeriaid.
- Ad-leoli neu symud safle.
- Mesurau i sicrhau amgylchedd gwaith diogel, er enghraifft newid rhif ffôn i osgoi galwadau ffôn sy’n aflonyddu.
- Defnyddio polisïau eraill presennol, yn cynnwys gweithio hyblyg.
- Mynediad i wasanaethau cwnsela/cymorth mewn amser a delir a’r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol.
- Mynediad i gyrsiau a ddatblygwyd i gefnogi goroeswyr cam-drin/trais domestig, er enghraifft y Rhaglen Rhyddid neu hyfforddiant mewn pendantrwydd.

Bydd rheolwyr yn parchu hawl staff i wneud eu penderfyniad eu hunain ar y ffordd i weithredu ar bob cam, yn amodol ar i ni fedru darparu ar eu cyfer drwy’r mesurau cefnogol uchod.

# 8. Rôl Rheolwyr

Dylai rheolwyr werthfawrogi pa mor anodd y gall fod i gyflogeion drafod eu hamgylchiadau personol a dylent bob amser gynnig cefnogaeth mewn modd sensitif ac anfeirniadol.

Rôl y rheolwr yw:

- Dynodi cyflogeion sy’n profi anawsterau fel canlyniad i gam-drin/trais domestig lle’n bosibl (er enghraifft, yn defnyddio hyfforddiant perfformiad rheolaidd, neu drwy feithrin diwylliant rheoli agored sy’n galluogi aelodau tîm i ddatgelu materion sensitif);
- Rhoi cefnogaeth yn y lle cyntaf, yn cynnwys cyngor penodol ar yr opsiynau sydd ar gael, ond hefyd yn cydnabod cyfyngiadau eu rôl (yn cyfeirio at gwnselwyr proffesiynol neu arbenigwyr lle bo angen);
- Diogelu cyfrinachedd ym mhob achos (ac eithrio gofynion diogelu a/neu warchod cyflogeion eraill);
- Cyfeirio unigolion at y ffynhonnell fewnol neu allanol briodol o help a chymorth;
- Sicrhau y caiff diogelwch yr holl gyflogeion yn y tîm ei warchod;
- Galluogi’r cyflogeion yr effeithir arnynt i aros yn gynhyrchiol ac yn y gwaith mewn cyfnod anodd yn eu bywyd domestig, er enghraifft drwy ddefnyddio’r polisïau sydd ar gael;
- Codi ymwybyddiaeth o’r polisi ymhlith yr holl gyflogeion;
- Cadw hyfforddiant yn gyfredol yn unol â’r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol yn ymwneud â VAWDASV.

Lle mae rheolwr yn amau fod gweithiwr yn profi cam-drin/trais domestig, gallant gysylltu â'r Tîm Datblygu Sefydliadol i gael cyngor cyn cynnal unrhyw drafodaeth gyda'r cyflogai. Dylai unrhyw drafodaeth am sefyllfa'r cyflogai ddigwydd yn breifat a dylid gofyn unrhyw gwestiynau mewn modd gofalus a sensitif ond ni ddylai gweithwyr byth gael eu rhoi dan bwysau i ddatgelu unrhyw wybodaeth bersonol nad ydynt yn teimlo'n gysurus yn ei rhannu. Mewn cytundeb gyda'r aelod o staff, gellir penodi aelod arall o staff fel pwynt cyswllt penodol ar gyfer y gweithiwr i'w cefnogi ymhellach. Bydd y person yma hefyd yn rhoi arweiniad ar gyfer rheolwyr llinell a chynrychiolwyr undeb y mae staff sy'n cael eu cam-drin yn cysylltu â nhw.

Gall rheolwyr ystyried gweithredu mesurau rhesymol a fyddai'n cefnogi cyflogeion sy'n profi cam-drin/trais domestig yn unol ag adran 7 uchod.

Gall cyflogeion sy'n profi cam-drin/trais domestig ddangos diffyg prydlondeb, presenoldeb, perfformiad gwaith a chynhyrchiant. Dylai rheolwyr fod yn ymwybodol y gall y ffactorau hyn fod yn symptomau trais a/neu gam-drin, a chymryd camau priodol i geisio sefydlu hyn cyn dechrau unrhyw weithdrefnau ffurfiol.

# 9. Cyflawnwyr Cam-drin/Trais Domestig

Pan fydd rheolwr yn gwybod fod cyflogai yn cyflawni camdriniaeth yn ystod oriau gwaith dylai'r mater gael ei drafod fel mater o frys gyda'r Tîm Datblygu Sefydliadol.

Ni chaiff cam-drin/trais domestig a gyflawnir gan gyflogeion ei dderbyn mewn unrhyw amgylchiadau. Sylweddolwn fod gennym rôl mewn annog a chefnogi cyflogeion i drin ymddygiad treisgar a chamdriniaeth o bob math.

Ystyriwn fod ymddygiad treisgar a chamdriniol gan gyflogai, dan unrhyw amgylchiadau, yn fater difrifol ac felly mae'n debygol o ddechrau'r weithdrefn ddisgyblaeth.

Lle bo angen, bydd angen gweithredu i leihau'r potensial i gyflawnwyr ddefnyddio eu sefyllfa neu adnoddau gwaith i gael manylion neu leoliad eu darpar ddioddefwyr. Gall hyn gynnwys newid dyletswyddau neu dynnu mynediad i rai rhaglenni cyfrifiadur.

Os canfyddir fod cydweithiwr yn cynorthwyo cyflawnwr mewn cynnal camdriniaeth, er enghraifft drwy roi mynediad iddynt i gyfleusterau megis ffonau neu e-bost, caiff hyn ei gymryd o ddifrif ac felly mae'n debygol o ddechrau'r weithdrefn disgyblaeth.

Gall unrhyw unigolyn a gaiff ei erlyn, ei gael yn euog neu ei rybuddio yng nghyswllt trosedd fod yn amodol i'r weithdrefn ddisgyblaeth. Rydym felly yn cadw'r hawl i weithredu'r weithdrefn ddisgyblaeth pe byddai gweithgareddau cyflogai y tu allan i'r gwaith yn effeithio ar eu gallu i gyflawni'r swydd y cânt eu cyflogi ar ei chyfer neu ble mae eu gweithredoedd yn debyg o ddod ag anfri i'r Cyngor/Ysgol. Dylai unrhyw unigolyn sy'n dreisgar at eraill neu yn cam-drin geisio cymorth a help gan ffynhonnell briodol.

# 10. Hyfforddiant a Chodi Ymwybyddiaeth

Rydym yn ymroddedig i sicrhau fod pob rheolwr yn gwybod am gam-drin/trais domestig a'i oblygiadau yn y gweithle.

Caiff pob cyflogai eu hysbysu am y polisi hwn a gwybodaeth gefnogi drwy ddull cylchlythyr/cyhoeddiadau, hysbysfyrddau a'r fewnrwyd.

Cyflwynir rhaglen hyfforddiant yn unol â Fframwaith Hyfforddiant Genedlaethol VAWDASV fel rhan o raglen dreigl barhaus i godi ymwybyddiaeth o drais a/neu gamdriniaeth a'r ddealltwriaeth o'r polisi a'r arweiniad hwn.

Mae'n ofynnol i bob cyflogai ddilyn hyfforddiant VAWDASV, sydd ar gael ar lefel yn unol â'u swydd. Dylai rheolwyr gadarnhau gyda chyflogeion newydd eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant priodol ar gyfer eu swydd fel rhan o'u cyfnod sefydlu/prawf.

Bydd sesiynau gwybodaeth neu godi ymwybyddiaeth yn sicrhau y gall pob rheolwr:

- Adnabod, lle'n bosibl, os yw cyflogeion yn profi anawsterau oherwydd cam-drin/trais domestig.
- Ymateb i ddatgeliad mewn modd sensitif ac anfeirniadol.
- Rhoi cymorth dechreuol – bod yn glir am y cymorth sydd ar gael yn y gweithle.
- Trafod sut y gall y sefydliad gyfrannu at gynllunio diogelwch.
- Cyfeirio at sefydliadau a ffynonellau cymorth eraill.
- Deall nad ydynt yn gwnselwyr.

# 11. Cyfrinachedd

Caiff trafodaethau rhwng rheolwr a chyflogeion sy'n profi cam-drin/trais domestig eu trin yn gyfrinachol. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau gall fod angen torri'r cyfrinachedd hwn er mwyn amddiffyn plant ac oedolion mewn risg mewn cysylltiad gyda'r polisïau corfforaethol ar Ddiogelu, neu lle mae angen i'r cyflogwr weithredu i sicrhau diogelwch cyflogeion.

Mewn amgylchiadau lle mae'n rhaid i ni dorri cyfrinachedd, byddwn yn gofyn am gyngor arbenigol cyn gwneud hynny. Os penderfynwn symud ymlaen gan dorri cyfrinachedd ar ôl cael cyngor, byddwn yn trafod gyda'r cyflogeion pam ein bod yn gwneud hynny ac yn ceisio eu cytundeb lle'n bosibl.

Cyn belled ag sy'n bosibl, dim ond ar sail angen gwybod y caiff gwybodaeth ei rhannu.

Caiff datgelu gwybodaeth yn amhriodol h.y. torri cyfrinachedd gan unrhyw aelod o staff ei gymryd o ddifrif a gall fod yn destun gweithredu disgyblaeth.

Gall cyflogeion sy'n profi cam-drin/trais domestig ddewis i gydweithiwr neu gynrychiolydd undeb llafur fod gyda nhw mewn cyfarfodydd.

Caiff cyflogeion eu hatgoffa am bwysigrwydd peidio datgelu gwybodaeth bersonol cyflogeion eraill, tebyg i gyfeiriadau, rhifau ffôn neu batrymau shifft. Mae hyn yn hollbwysig wrth ddelio gydag achosion camdriniaeth seiliedig ar anrhydedd.

Os nad yw cyflogai yn dymuno trafod manylion y cam-drin/trais domestig gyda'u rheolwr, yna dylai'r rheolwr eu cynghori am asiantaethau arbenigol eraill y gallant siarad â nhw fel yr amlinellir yn adran help a chymorth y polisi hwn.

Caiff yr holl gyflogeion eu hannog i ddweud os ydynt yn amau fod cydweithiwr yn profi neu'n cyflawni camdriniaeth. Dylai cyflogeion siarad gyda'u rheolwyr am eu pryderon yn gyfrinachol. Wrth ddelio gyda datgeliad gan gydweithiwr, dylai rheolwyr sicrhau y caiff y person ei hysbysu am y polisi hwn a bod cymorth mewnol ac allanol ar gael.

# 12. Hawl i Breifatrwydd

Rydym yn parchu hawl cyflogeion i breifatrwydd. Er ein bod yn rhoi anogaeth gref i ddioddefwyr camdriniaeth/trais domestig i ddatgelu er eu diogelwch eu hunain a phawb yn y gweithle, ni fyddwn yn eu gorfodi i rannu'r wybodaeth hon os na ddymunant wneud hynny. Fodd bynnag, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i gyflawnwyr cam-drin/trais domestig i ddatgelu unrhyw erlyniadau, euogfarnau neu rybuddion cysylltiedig.

# 13. Datganiad Cydraddoldeb

Rydym yn cydnabod y gall camdriniaeth/trais domestig ddigwydd ym mhob maes o gymdeithas. Sylweddolwn fod camdriniaeth/trais domestig yn fater cydraddoldeb ac y gall rhai cyflogeion wynebu rhwystrau ychwanegol a phroblemau wrth geisio help oherwydd eu cefndir ethnig, crefydd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu rywedd a allai wneud iddynt deimlo'n neilltuol o fregus wrth siarad am eu sefyllfa.

Bydd unrhyw hyfforddiant ar fater cam-drin/trais domestig yn cynnwys gwerthfawrogiad o'r materion hyn a sut i oresgyn y rhwystrau a gyflwynir i'r unigolion hyn.

Ni fyddwn yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un sydd wedi dioddef cam-drin/trais domestig o ran cyflogaeth bresennol na datblygiad yn y dyfodol. Rhoddir ystyriaeth i hynny os yw cyflogeion yn datgelu cam-drin/trais domestig yn ystod gweithdrefnau disgyblaeth yng nghyswllt perfformiad, absenoliaeth ac yn y blaen. Gall y broses ddisgyblaeth gael ei hatal dros dro os teimlir y gellir datrys y mater drwy drin yr anghenion cymorth neu ddiogelwch.

# 14. Mesurau Perfformiad

Sylweddolir nad yw monitro a gwerthuso bob amser yn rhwydd oherwydd materion yn ymwneud â chyfrinachedd a sensitifrwydd am achosion trais, cam-drin ddomestig a/neu drais rhywiol. Fodd bynnag, gall yr wybodaeth ddilynol gael ei chofnodi a'i rhannu gyda Thîm Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig yn Llywodraeth Cymru:

- Sut y cafodd y polisi ei hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth staff;
- Manylion yr hyfforddiant sydd ar y gweill a/neu nifer staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant; a
- Nifer yr ymweliadau i'r dudalen ar fewnrwyd Blaenau Gwent sy'n ymwneud â pholisi gweithle.

# 15. Diogelu Data

Pan mae unigolyn yn profi cam-drin/trais domestig ac yn derbyn cymorth, caiff unrhyw ddata personol a gesglir ei phrosesu yn unol â'r polisi perthnasol ar ddiogelu data. Caiff data a gesglir o'r adeg pan ddeuwn i wybod am y mater ei gadw'n ddiogel a dim ond ar gyfer dibenion darparu'r cymorth angenrheidiol y caiff ei datgelu ac y bydd unigolion yn cael mynediad i'r wybodaeth.

# 16. Help a Chymorth

- **Iechyd Galwedigaethol**

  I gael manylion ar Iechyd Galwedigaethol, dylai cyflogeion gysylltu â'u Rheolwr neu Dîm Datblygu Sefydliadol. Mae gwybodaeth bellach hefyd ar gael ar y dudalen Datblygu Sefydliadol ar y fewnrwyd.

- **Rhaglen Cymorth i Weithwyr**

  Mae Rhaglen Cymorth i Weithwyr ar waith gyda darparwr annibynnol o'r enw Vivup. Gyda Vivup, gallwch gael budd o fynediad cyfrinachol at gwnselwyr cwbl gymwys ac arbenigwyr cymorth i drafod unrhyw faterion emosiynol, personol neu gysylltiedig â gwaith - 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn.

  P'un a ydych yn wynebu problemau yn y gwaith neu gartref, byddwch yn gallu cael mynediad at gyngor diduedd, cyfrinachol ar faterion fel gorbryder, profedigaeth, straen, iselder, problemau yn y gweithle, trawma, perthnasoedd, anawsterau teuluol, cyllid, ac ati.

  Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim ac nid oes angen i chi ofyn i'ch rheolwr ei ddefnyddio. Mae manylion cyswllt isod ac mae gwybodaeth ychwanegol ar gael ar y fewnrwyd.

| SUT I GYSYLLTU Â VIVUP | |
|---|---|
| Ffoniwch y llinell gymorth rhad ac am ddim 24/7 ar **0800 023 9387** | Ewch i wefan Vivup i gael mynediad at lyfrau gwaith hunangymorth, podlediadau a blogiau. |
| Ewch i lwyfan iechyd a lles rhagweithiol "Eich Gofal" Vivup a chreu cyfrif i gynnal asesiadau llesiant, gosod nodau a llawer mwy. | |

- **Academi Cymru Gyfan**

  Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu modiwl e-ddysgu i godi ymwybyddiaeth am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae hyn ar gael ar Academi Cymru Gyfan, llwyfan dysgu ar-lein y Cyngor ac mae'n ofyniad hyfforddiant gorfodol. Rhagwelir y bydd yn cymryd tua 45 munud i orffen y cwrs.

  Cliciwch ar y ddolen islaw neu ei gludo yn eich porwr:
  https://learning.nhs.wales/course/view.php?id=27

  Eich enw mewngofnodi/defnyddiwr fydd eich cyfeirnod personol (sydd ar gael ar eich dalen gyflog) gyda rhagddodiad o bgcbc e.e. **bgcbc123456** a'ch cyfrinair dechreuol yw **Changeme01%**

  Os gofynnir i chi roi allwedd ymrestru, rhowch **Blaen15%**

  Mae desg gymorth ar gael i gynorthwyo gydag unrhyw faterion yn ymwneud ag enw defnyddiwr/cyfrinair.
  E-bost: elearning@wales.nhs.uk
  Ffôn: 01443 848636

- **Gwasanaethau Cam-drin Domestig Phoenix**

  Mae Gwasanaethau Cam-drin Domestig Phoenix yn elusen gofrestredig a sefydlwyd yn 2002 i ddarparu gwasanaeth gwybodaeth a chymorth rhad ac am ddim a chyfrinachol i'r rhai y mae cam-drin domestig o fewn bwrdeistref Blaenau Gwent yn effeithio arnynt.

  Llinell Gymorth: 01495 291202
  E-bost: info@phoenixdas.co.uk
  Gwefan: http://www.phoenixdas.co.uk

- **Byw Heb Ofn**

  Mae Byw Heb Ofn yn wefan gan Lywodraeth Cymru, sy'n darparu gwybodaeth a chyngor ar gyfer y rhai sy'n dioddef o gam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod.

  Llinell Gymorth: 0808 8010 800 (24 awr, 365 diwrnod y flwyddyn)
  E-bost: info@livefearfreehelpline.wales
  Gwefan: http://www.livefearfree.gov.wales/

- **Prosiect Dyn**

  Mae prosiect Dyn Cymru Ddiogelach yn rhoi cefnogaeth i ddynion sy'n profi cam-drin domestig gan bartner. Mae llinell gymorth Dyn Cymru Ddiogelach yn eich galluogi i siarad yn gyfrinachol gyda rhywun a all wrando arnoch heb feirniadu eich sefyllfa. Gall Dyn Cymru Ddiogelach eich cefnogi i ddelio gyda'r problemau a wynebwch a dweud wrthych os oes unrhyw wasanaethau eisoes ar gael yn eich ardal. Mae pob galwad i'r llinell yn rhad ac am ddim ac yn gyfrinachol.

  Llinell Gymorth: 0808 801 0321 (Llun: 10am-4pm, Mawrth: 10am-4pm, Mercher: 10am-1pm)
  E-bost: support@dynwales.org
  Gwefan: http://www.dynwales.org/

- **Cymorth i Ddioddefwyr**

  Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn rhoi help emosiynol ac ymarferol i bobl y mae troseddu wedi effeithio arnynt, p'un ai a gafodd y digwyddiad ei adrodd i'r heddlu ai peidio a pha bynnag mor bell yn ôl y digwyddodd y drosedd. Byddant yn eich cynorthwyo cyhyd ag mae'n gymryd i oresgyn effaith troseddau a sicrhau y gall unrhyw un sy'n galw gael yr wybodaeth a'r gefnogaeth sydd ei hangen e.e. trefnu cyfarfod i chi siarad gyda Cymorth i Ddioddefwyr neu gael cyngor ar sut i wneud eich cartref yn fwy diogel, neu eich cyfeirio at sefydliadau eraill arbenigol a all helpu hefyd.

  Llinell Gymorth: 0300 123 21 33 (Llun-Gwener: 8am-7pm; Sadwrn: 9am-5pm). Os ydych angen cymorth tu allan i oriau gwaith, ffoniwch Supportline am ddim ar 08 08 16 89 111
  Gwefan: https://www.victimsupport.org.uk/help-and-support/get-help/support-near-you/wales/gwent

- **Grŵp Hawliau Teulu**

  Darparu cefnogaeth, gwybodaeth a chyngor i rieni y mae eu plant yn ymwneud â nhw, neu sydd angen, gwasanaethau cymdeithasol oherwydd pryderon am ddiogelwch neu lesiant – yn ogystal â rhieni a perthnasau plant yn y system gofal.
  Llinell Gymorth: 0808 801 0366 (9.30am – 3pm, Llun - Gwener
  Gwefan: https://www.frg.org.uk/

- **Canolfan Argyfwng Trais**

  Cefnogi genethod a menywod sydd wedi profi trais, trais rhywiol neu gamdriniaeth rhywiol ar unrhyw amser.
  Llinell Gymorth: 0808 802 9999 (12 - 2.30pm a 7pm -9.30pm, 365 diwrnod y flwyddyn)
  Gwefan: https://rapecrisis.org.uk/

- **NSPCC**

  Darparu gwybodaeth a chyngor ar gyfer unrhyw oedolyn sy'n bryderus am ddiogelwch plentyn.
  Llinello Gymorth: 0808 800 5000 (8am – 10pm, Llun - Gwener; 9am – 6pm ar benwythnosau)
  E-bost: help@nspcc.org.uk
  Gwefan: https://www.nspcc.org.uk/

- **Llinell Gyngor Dynion**

  Darparu cefnogaeth, gwybodaeth a chyngor ar gyfer dynion sy'n profi trais neu gamdriniaeth domestig.
  Llinell Gymorth: 0808 8010327 (9am-8pm Llun-Gwener)
  E-bost: info@mensadviceline.org.uk

- **Gofyn am wybodaeth Cyfraith Clare – Cynllun Datgeliad Trais Domestig**

  Mae'r Cynllun Datgelu Trais Domestig, a gaiff yn aml ei alw yn "Gyfraith Clare" yn rhoi hawl i unrhyw aelod o'r cyhoedd i ofyn i'r heddlu am hanes blaenorol partner o drais domestig neu weithredoedd treisgar. Dan Gyfraith Clare, gall aelod o'r cyhoedd hefyd wneud ymholiadau am bartner cyfaill agos neu aelod o'r teulu. Mae'r ffurflen ar gyfer gwneud cais ar gael drwy'r wefan isod.
  Ffôn: 101 neu, os yn fyddar/trwm eich clyw, defnyddiwch y gwasanaeth ffôn testun ar 18001 101 i roi adroddiad am gamdriniaeth.
  Gwefan: https://www.south-wales.police.uk/advice/advice-and-information/daa/domestic-abuse/alpha2/request-information-under-clares-law/